OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2617 (Cy.213)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trosglwyddo Ystad Weddilliol) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*29 Medi 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Hydref 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 11(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a pharagraff 22(1) a (3) a pharagraff 23(3) a (7) o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno ac adran 18(4) a pharagraff 9(1), (3), (5) a (9) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, a chyda chytundeb y Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol perthnasol yn unol â pharagraff 22(2) o Atodlen 2 a pharagraff 9(7) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, yn eu trefn drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trosglwyddo Ystad Weddilliol) (Cymru) 2009, a daw i rym ar 1 Hydref 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "corff Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ("*National Health Service body*") yw'r corff perthnasol a restrir yng ngholofn 2 o'r Atodlen;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Hydref 2009;

"yr ystad weddilliol" ("*the residual estate*") yw'r ystad honno a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodlen.

Trosglwyddo Ystad Weddilliol

3.—(1) Trosglwyddir yr ystad weddilliol i'r corff Gwasanaeth Iechyd Gwladol perthnasol o'r dyddiad trosglwyddo.

(**1**) 2006. p.42.

(2) Rhaid i'r corff Gwasanaeth Iechyd Gwladol perthnasol gadw at delerau unrhyw les a drosglwyddwyd iddo yn rhinwedd yr erthygl hon.

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

29 Medi 2009